

Ymateb i Ymgynghoriad: Ymchwiliad ynghylch effaith cychwyniad Covid-19, a'i rheolaeth, ar ofal iechyd a chymdeithasol yng Nghymru

Tystiolaeth i: Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, Senedd Cymru
Ymateb ar y cyd gan: Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan, Fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan, Anabledd Dysgu Cymru, Cymdeithas Syndrom Down, Mencap Cymru, Cymorth Cymru. Cyflwynwyd ar 28.06.2020

Cynnwys

Ynghylch y sefydliadau sy'n cyflwyno	2
Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan	2
Fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan	2
Anabledd Dysgu Cymru	2
Cymdeithas Syndrom Down	2
Mencap Cymru	2
Cymorth Cymru	2
Crynodeb Gweithredol	3
Cefndir	4
Sut creasom yr adroddiad hwn	4
Casgliadau	5
Dryswch a phryder	5
Anhawsterau sydd yn perthyn i warchod	6
Cadw'n ddiogel a iach	7
Colli Cefnogaeth	8
Cyflogaeth	9
Adroddiadau cadarnhaol	10
Adnoddau pwysig eraill	12
Cysylltiadau	12

Am y sefydliadau sydd yn cyflwyno

Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan (PGCG)

Llais unedig yw Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan ar gyfer grwpiau hunan-eiriolaeth a phobl gydag anableddau dysgu yng Nghymru. Mae Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan yn sefydliadau ar gyfer, a arweinir gan, ddynion a menywod gydag anabledd dysgu. Mae'n unigryw yng Nghymru oherwydd mai fe yw'r unig sefydliad cenedlaethol a arweinir gan ei aelodau sydd yn cynrychioli llais ddynion an menywod gydag anabledd dysgu.

Fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan (FfCG)

Dod â llais a chydabyddiaeth cenedlaethol i'r amlwg yw cenhadaeth Fforwm Cymru Gyfan i rieni a gofalwyr plant ac oedolion sydd yn byw gydag anableddau dysgu yng Nghymru. Mae FfCG yn unigryw ymhlith sefydliadau anabledd dysgu oherwydd mai fe yw'r unig sefydliad sydd yn cynrychioli barnau rhieni a gofalwyr pobl gydag anableddau dysgu ledled Cymru.

Anabledd Dysgu Cymru (ADC)

Elusen genedlaethol yw Anabledd Dysgu sydd yn cynrychioli'r sector anabledd dysgu yng Nghymru. Mae popeth yr ydym yn ei wneud yn canolbwyntio ar greu Cymru sydd yn gwerthfawrogi a chynnwys pob plenty, person ifanc ac oedolyn gydag anabledd dysgu. Gwnawn hyn trwy weithio gyda phobl gydag anabledd dysgu a'u teuluoedd, Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, sefydliadau pobl anabl a'r sector gwirfoddol, gan ymgorffori Prosiect Engage to Change (E2C). Partneriaid Prosiect Engage to Change yw Anabledd Dysgu Cymru, Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan, Agoriad Cyf, Asiantaeth Cyflogaeth â Chefnogaeth ELITE a Chanolfan Genedlaethol Iechyd Meddwl ym Mhrifysgol Caerdydd.

Cymdeithas Syndrom Down (CSD)

Yr unig elusen yn y DU yw Cymdeithas Syndrom Down sydd yn ymwneud â phob agwedd o syndrom Down. Helpu pobl gyda syndrom Down i gael bywydau llawn a gwerthfawr yw ei nod.

Mencap Cymru

Llais anabledd dysgu yng Nghymru yw Mencap Cymru. Byd lle gwerthfawrogi a chynhwysir pobl gydag anabledd dysgu yn gyfartal a gwrandewir arnynt yw ein gweledigaeth. Mae Mencap yn rhedeg gwasanaethau a phrosiectau gwahanol i bobl gydag anabledd dysgu, gan gynnwys Llinell Gymorth Anabledd Dysgu yng Nghymru.

Cymorth Cymru (CC)

Corff cynrychiolaidd i ddarparwyr gwasanaethau digartref, tai a chefnogaeth yng Nghymru yw Cymorth Cymru. Gweithredwn fel llais y sector gan ddylanwadu ar

datblygu a gweithredu polisiâu, deddfwriaeth ac ymarferion sydd yn effeithio ar ein haelodau a'r bobl y maent yn eu cefnogi. Ymrwymir ni i weithio gyda phobl sydd yn defnyddio ein gwasanaethau, ein haelodau a'n partneriaid i gyflawni newid. Credwn gyda'n gilydd, gallwn gael mwy o effaith ar fywydau pobl.

Crynodeb Gweithredol

Rydym yn cyflwyno yr ymateb hwn ar ran pobl gydag anabledd dysgu, eu teuluoedd a'u gofalwyr. Tynnwn ar adroddiadau a arweinir gan sawl sefydliad-aelod gan gynnwys pobl gydag anabledd dysgu eu hunain, grwpiau Pobl yn Gyntaf ledled Cymru, gofalwyr teuluoedd a darparwyr gwasanaethau.

Ein casgliadau yw:

- Mae pobl gydag anabledd dysgu a'u teuluoedd yn brwydro gyda phryder a dryswch arwyddocaol. Mae pobl yn pryderu am y coronafeirws ei hunan, amwysedd rheolau'r cyfnod cloi a phryderon am y dyfodol.
- Mae llawer o bobl wedi adrodd anhawsterau ynghylch y broses warchod. Weithiau'r naill nid yw pobl a ddylai fod wedi bod yn gwarchod wedi derbyn llythyrau gwarchod, weithiau'r llall mae pobl wedi eu derbyn heb ddeall pam.
- Mae cadw'n ddiogel wedi bod yn her i lawer o bobl gydag anabledd dysgu. Mae pobl wedi adrodd sawl problem yn cael bwyd a nwyddau eraill. Maent yn pryderu am ddiogelwch eu cefnogaeth cyflogedig a brwydro i gael OGP addas.
- Mae pobl gydag anabledd dysgu wedi bod yn brwydro i gael mynediad at ofal iechyd heb gysylltiad â Covid-19. Maent wedi bod yn colli archwiliadau iechyd blynyddol ac mae llawer wedi cael rhyngweithio â'u meddyg teulu dros y ffôn yn heriol
- Mae pobl gydag anabledd dysgu'n brwydro wedi colli cefnogaeth arwyddocaol, mewn gwasanaethau enwedig, gweithwyr cymdeithasol a gofal seibiant. Rydym yn pryderu nid yn unig am effaith y colled hwn ar y cefnogaeth y mae pobl yn ei dderbyn ar hyn o bryd ond hefyd ar yr effeithiau tymor hir. Mae rhieni gydag anableddau dysgu yn pryderu am golli gwarchodaeth o'u plant ar ôl diwedd y cyfnod cloi oherwydd nad ydynt yn derbyn y cefnogaeth gyda'u plant sydd angen arnyn nhw y funud hon.
- Mae effaith ar bobl gydag anabledd dysgu a gyflogwyd cyn Covid 19 yn amrywio cryn dipyn ac roedd i'r rhai sy'n dal mewn gwaith ddysgu pethau newydd am y ffyrdd newydd o weithio a'r hyn mae'n rhaid iddyn nhw wneud i gadw eu hunain yn ddiogel wrth deithio i/o'r gwaith ac yn y gweithle.
- Mae rhai pethau positif yn cael ei adrodd. Mae rhai pobl gydag anabledd dysgu yn dysgu sgiliau newydd ac mae adroddiadau gennym ni am gefnogaeth gymunedol sylweddol. Rydyn ni wedi cael Llywodraeth Cymru yn ymatebol yn bennaf i'n phryderon yn ystod yr argyfwng

Cefndir

Yn 2018 i 2019 roedd 13,507 o bobl gydag anabledd dysgu'n adnabyddus i'r gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. O'r rhain, buodd 11,001 yn byw yn y gymuned, 1,424 yn byw ar eu pennau eu hunain, 7,065 yn byw gyda'u rhieni/teuluoedd, 2,283 yn byw'n gynhaliadwy a 229 mewn gofal maeth. O'r bobl gydag anabledd dysgu sy'n weddill, buodd 108 yn byw mewn gwasanaethau iechyd (gan gynnwys ysbytai/hosteli), 94 yn byw mewn llety preswyl llywodraethau lleol a 1,206 yn byw mewn llety preswyl preifat neu wirfoddol, 518 yn byw mewn llety arall¹.

Mae'r nifer o bobl gydag anabledd dysgu sydd yn adnabyddus i'r gwasanaethau cymdeithasol wedi lleihau mewn cymhariaeth â'r blynyddoedd blaenorol. Mae hyn yn debyg oherwydd y ffaith bod diagnosisu anableddau dysgu wed mynd yn galetach i'w cael. At ei gilydd, gyda thoriadau a ddeilliodd o fesurau cyni, bydd llawer o bobl gydag anabledd dysgu eisoes wedi cael anhawsterau yn cael cefnogaeth sydd angen arnyn nhw cyn Covid-19, yn eu gadael nhw yn arbennig o agored i effeithiau Coronafeirws a'r cyfnod cloi ill dau.

Rydyn ni'n gwybod, hyd yn oed cyn Covid-19, bod pobl gydag anabledd dysgu'n dueddol i anghydraddoldebau iechyd difrifol. Darganfuodd adroddiad diweddar Llywodraeth Cymru fod:

"wide-ranging evidence to suggest that disabled people in Wales experience considerable general and more specific healthcare access issues. Background evidence suggests there is a strong correlation between poverty and disability and that such poverty is compounding already existing inequalities in access to better health. For example, many disabled people have considerably shorter life-expectancies and there is evidence to suggest that this is caused by inequitable levels of healthcare provision¹."

Bydd yr anghydraddoldebau iechyd presennol hyn yn debyg o waethygu agoredrwydd pobl gydag anabledd dysgu i Covid-19 a hefyd wedi gwneud y colled o wasanaethau eraill oherwydd y cyfnod cloi a'r straen ar y gwasanaeth iechyd yn fwy dramatig.

Sut creon ni'r adroddiad hwn

Mae pob sefydliad sydd yn cyfrannu wedi ymgomio â phobl gydag anabledd dysgu, gofalwyr plant ac oedolion gydag anabledd dysgu, a darparwyr gwasanaethau. Mae sawl sefydliad sydd yn cyfrannu wedi cyhoeddi dogfennau'n annibynnol a rhestrir y rhain mewn llyfryddiaeth ar y diwedd. Ar ôl rhai o'r eitemau yn yr adroddiad, rydyn ni wedi rhoi enw'r sefydliad yr eglurir y pwynt penodol yn eu hadroddiad.

¹ <https://gov.wales/review-evidence-inequalities-access-health-services-wales-disabled-people>

Dryswch a Phryder

- Mae'r rhan fwyaf o bobl gydag anabledd dysgu wedi adrodd teimlo'n unig, yn ynysig, syrffed a rhwystredigaeth oherwydd canslo cyfarfodydd a digwyddiadau megis Grwpiau Pobl yn Gyntaf lleol (PGCG). Mae'r unigrwydd hwn yn peri gofid oherwydd i bobl gydag anabledd dysgu frwydro gydag unigrwydd cyn Covid-19. Mewn arolwg 2019, darganfuodd Mencap i 24% o bobl gydag anabledd dysgu adrodd teimlo'n unig llawer.
- Fel arfer, Mae pobl gydag anabledd dysgu sy'n byw ar eu pennau eu hunain yn brwydro mwy gydag unigrwydd na'r rhai sy'n byw gydag eraill. Beth bynnag, adroddodd pobl sy'n byw gydag eraill brofiadau tebyg o unigedd cymdeithasol i'r rhai sy'n byw ar eu pennau eu hunain. (PGCG)
- Mae dryswch ynglŷn â'r hyn yn union sydd yn digwydd a'r hyn sydd yn eu haros yn bryder mawr i bobl gydag anabledd dysgu. Mae'r rhai gyda chyflyrau iechyd meddwl a/neu gyflyrau niwrolegol yn brwydro â chofio'r ymresymiad tu ôl i'r newidiadau sydyn ac mae lleiafrif bach yn dangos peth ymddygiad eithafol gan gynnwys meddyliau hunanladdol. Lle bo angen, mae gweithwyr cymorth yn galw ar sefydliadau ac asiantaethau eraill i helpu'r rheiny mwyaf agored ac sydd angen cefnogaeth ar frys. Mae diffyg dyddiad terfynol neu amserlen glir yn peri dryswch a phryder, fel y sawl diweddariad newyddion o amryw ffynonell, y mae'r rhan fwyaf ohonyn nhw yn anodd eu deall. Mater arall yw nad yw'n glir bob tro a yw'r rheolau sy'n dod o Lywodraeth DU yn cyfeirio at Gymru neu sut bydd y rheolau'n wahanol efallai. Nid yw hyn yn cael ei helpu gan gyfryngau DU yn adrodd yn rheolaidd newyddion Lloegr fel pe bai'n perthyn i DU Gyfan (PGCG, ADC).
- Mae pobl yn ymwybodol o'r berygl bywyd oddi wrth coronafeirws. Mae hyn yn achosi pryder i fywydau pobl eu hunain a sut byddan nhw'n ymdopi â cholli rhywun y maen nhw'n ei adnabod.
- Mae gan rai o blant a phobl ifanc gydag anabledd dysgu gyflyrau iechyd isorweddol ac mae lefelau arwyddocaol o bryder bellach ymhlith eu teuluoedd am a fydd yn ddiogel iddyn nhw dychwelyd i'r ysgol neu i'r coleg pan ddechreuiff y lleoliadau hyn ail-agor.
- Mae dryswch wedi bod ynglŷn â'r rheolau ymarfer. Er enghraifft, roedd rhai o bobl gydag awtistiaeth yn meddwl bod y rheolau'n dweud na allen nhw fynd allan heb ofalwr neu berson arall (ADC, PGCG).
- Mae pobl mewn dryswch am y term cadw pellter "cymdeithasol" ac awgrymwyd y byddai cadw pellter corfforol yn fwy addas a mwy hygyrch (PGCG)
- Mae rhai o bobl wedi lleisio pryderon am bwerau argyfwng a'r defnydd ohonyn nhw gan lywodraethau lleol yn ystod yr argyfwng hwn. Yn Lloegr, mae cyngor ar fesurau i leihau pwysau ar wasanaethau'n dweud bod angen ar gynghorau i gadw at Ddeddf Hawliau Dynol ond yng Nghymru, penderfyniad dyfarnol yw e (Mencap)

- Rydyn ni wedi clywed pryderon oddi wrth pobl awtistig a gofalwyr plant anabl yn Ne Cymru bod amwysedd rheolau'r cyfnod cloi yn peri pryder arwyddocaol. Mwyheuwyd y pryder hwn gan bryderon am yr hyn a alwyd "gwarcheidwadaeth" gan un person awtistig y siaradon ni â nhw. Mae pobl awtistig, yn enwedig, yn pryderu am gael eu haflonyddu gan aelodau o'r cyhoedd neu aelodau o'r heddlu hyd yn oed ar sail rheolau cadw pellter cymdeithasol. Y rheswm y mae'r rheolau mor anodd i'w dilyn yw eu bod yn anghyson â'i gilydd ac yn ddryslyd. Hefyd, mae pobl yn disgrifio brwydro â rheolau heb eu hysgrifennu. Er enghraifft, disgrifiodd un person eu profiad o gael eu haflonyddu mewn archfarchnad am edrych ar y cynhyrchion yn rhy hir.

Anhawsterau sy'n gysylltiedig â gwarchod

- Mae llythyrau statudol sydd yn cynnig help, cyngor a chyfarwyddiadau oddi wrth wasanaethau lleol a Llywodraeth Cymru yn araf i gyrraedd a pan wnân nhw, nid oes cefnogaeth ar gael i helpu gyda darllen a deall y cynnwys. Ar hyn o bryd, nid oes fersiwn hawdd ei ddeall o'r llythyr gwarchod ar gael. Gofynnodd Mencap i Lywodraeth Cymru am ychwanegiad i'r llythyr gwarchod yn cynghori pobl i alw Llinell Gymorth Anabledd Dysgu Cymru pe bai anhawster deall y llythyr gyda nhw. (Mencap).
- Mae rhai o bobl gydag anabledd dysgu wedi derbyn llythyrau gwarchod, hyd yn oed os nad oedd yn glir iddyn nhw neu eu teulu pam y dylen nhw warchod. Er nad oes fel petai mater cyffredin o bobl nad yw'n dilyn y canllawiau, mae diffyg dealltwriaeth o'r llythyr wedi arwain at rai o bobl yn mynd allan pan ddylen nhw warchod. Hefyd mae rhai unigolion sy ddim yn deall, oherwydd eu bod yn byw yn yr un tŷ â rhywun sydd yn gwarchod, bod rhaid iddyn nhw warchod er mwyn gwarchod y person hwnnw (Mencap, ADC)
- Mae rhai o bobl gydag anabledd dysgu a chyflyrau iechyd eraill yn teimlo y dylen nhw fod wedi derbyn llythyr gwarchod oddi wrth eu meddyg ac wedi drysu achos bod nhw heb. Maen nhw'n pryderu am y ffordd orau o gadw'n ddiogel gan wybod bod cyflwr iechyd arnyn nhw, ond heb gael eu cynghori i warchod (PGCG).
- Mae rhai o bobl gydag anabledd dysgu heb dderbyn llythyr oddi wrth eu meddyg teulu yn eu cynghori i warchod, ond dwedwyd wrthyn nhw i warchod gan staff gofal a/neu eu darparwr tai. Yn niffyg cyfathrebu clir, maen nhw wedi drysu am y rhesymeg tu ôl i'r gofyn i warchod. Maen nhw naill ai wedi mynegi eu pryderon bod cyflwr iechyd arnyn nhw efallai sydd heb ei gyfathrebu â nhw neu'n mynegi rhwystredigaeth ynglŷn a pam mae'r rheolau gwarchod yn cael eu gosod arnyn nhw (PGCG).
- Mae gan rai o bobl gydag anabledd dysgu, yn arbennig pobl gyda Syndrom Down, chyflyrau iechyd isorweddol sy'n golygu eu bod yn dewis hunanynysu'n aml cyn iddo fynd yn orfodol

Cadw'n ddiogel ac yn iach

- Mae gan rai o bobl gydag anabledd dysgu, yn arbennig pobl gyda Syndrom Down, chyflyrau iechyd isorweddol sy'n golygu eu bod yn dewis hunanynysu'n aml cyn iddo fynd yn orfodol (DSA).
- Mae pobl wedi adrodd sawl problem yn cael bwyd a chynhyrchion eraill. Mae amseroedd siopa blaenoriaethol yn rhy gynnar yn aml ac mae'r rhesi'n rhy hir ar gyfer rhai pobl. Mae rhai wedi gofyn am: slotiau amser wedi eu personoli (e.e. gyda'r nos neu am amser penodol dewisol; system danfon siopa flaenoriaethol (er bod pryder ynglŷn â'r perygl uwch o halogiad o'r system danfon); rhestr o bobl efallai a gaiff flaenoriaeth (Mencap).
- Mae pobl gydag anabledd dysgu hefyd wedi adrodd sawl mater arall ynglŷn â siopa: ofnau am y rhaid iddyn nhw ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus i gyrraedd; system un-ffordd mewn siopau'n rhy anodd i chwilio'r ffordd; siopa ar-lein ddim yn hygyrch; diffyg cymorth i wneud y gwaith siopa mewn ffyrdd amgen i fynd mewn person.
- Mae pobl yn pryderu am ddiogelwch y cymorth cyflogedig. Mae rhieni pobl gydag anabledd dysgu'n gwneud asesiadau risg ac yn cymryd mesurau fel y gwelan nhw'n dda. Hefyd maen nhw'n brwydro gyda diffyg PPE ac mae peth dryswch ynghylch a fydd y cynllun Tâl Uniongyrchol yn talu costau PPE. Mae dryswch pellach am Daliadau Uniongyrchol a gwasanaethau wedi'u gohirio (e.e. gofalwyr yn dal i gael eu talu ayb. Mae bwlch eang yn y cyngor a roddir gan arweinwyr Taliadau Uniongyrchol mewn awdurdodau lleol (Mencap).
- Mae'n anodd cael llythyron ar gyfer gweithwyr alweddol (Mencap).
- Mae pobl gydag anabledd dysgu wedi bod yn brwydro cael gofal iechyd nad yw'n perthyn i Covid-19. Nid yw arbenigwyr wedi bod yn ymweld â chartrefi preifat neu lety â chymorth. Mae anghenion gofal sylfaenol heb eu diwallu (e.e. ewinau traed heb eu torri). Nid oes arolygiadau blynyddol optegwyr neu ddeintyddion yn digwydd a dim ond triniaeth deintyddol brys gyda rhestr gaeth mewn ysbytai sydd ar gael (Mencap). Mae hyn yn bryderus o lawer o ystyried bod oedolion gydag anabledd dysgu hyd at ddeng gwaith mwy tebyg o gael problemau golwg difrifol na'r boblogaeth gyffredinol
- Mae pob apwyntiad meddyg teulu naill ai dros y ffôn neu'n rhith, sydd yn her i rai pobl, yn arbennig y rhai gydag anhawsterau cyfathrebu.
- Mae pryderon y bydd yr Archwiliadau Iechyd Blynyddol wedi cael eu hoedi a efallai cymeriff beth amser i ailddechrau, sydd yn golygu bydd tagfa. Gan wybod yr anghydraddoldebau iechyd y mae unigolion gydag anabledd dysgu'n profi'n aml, dylid blaenoriaethu'r gweithgareddau hyn (DSA). Dull pwysig yw Archwiliadau Iechyd Blynyddol am adnabod cyflyrau iechyd yn gynnar a rheoli cyflyrau iechyd tymor hir er mwyn lleihau'r niferoedd uchel o farwolaethau cyn pryd ymhlith pobl gydag anabledd dysgu. Darganfuodd astudiaeth a ariannwyd gan yr Adran Iechyd yn 2013 fod, ar gyfartaledd, fenywod gydag anabledd

dysgu'n marw 20 mlynedd yn gynt na'r rhai yn y boblogaeth gyffredinol ac mae dynion gydag anabledd dysgu'n marw 13 blynedd yn iau na'r rhai heb anabledd dysgu.

- Mae problem gyda phobl yn cael meddyginiaeth. Nid yw prosesau cymhleth i newid Meddyginiaeth trwy e-bost yn hygyrch i bawb neu ddulliau gwe-sgwrsio ar wefannau i gael presgripsiwn. Yn aml, mae ciwiau hir am feddyginiaeth neu mae anhawsterau yn cael danfoniadau i'r rhai sydd heb drefnu hyn cyn y pandemig eisoes.

Colli Cefnogaeth

- Mae pobl gydag anabledd dysgu yn brwydro â cholli cymorth arwyddocaol. Mae'n rhaid iddyn nhw dreulio cyfnodau helaeth bellach heb weithgareddau gwasanaethau dydd, wedi cael cynlluniau rhith-weithgareddau yn lle gweithgareddau ac wedi treulio cyfnodau helaeth o amser heb wasanaethau gofal seibiant. Mae'n rhaid cynyddu cymorth i ofalwyr di-dâl sydd yn gofalu am oedolion gydag anabledd dysgu oherwydd gall fod yn heriol i ofalu am oedolyn 24 awr y dydd heb unrhyw seibiant.
- Mewn ardaloedd lle maen nhw'n dibynnu ar grwpiau gwirfoddol a chymorth cymunedol, mae pobl wedi codi llais am halogiad posib coronafeirws.
- Ni adewir i rieni ymweld â'u meibion â'u merched mewn cartrefi gofal /byw'n gynaliadwy. Mae bod heb gynlluniau mewn lle am pryd bydd yr ymweliad nesaf yn peri gofid i rieni a'u meibion/merched ill dau. Yn yr un modd, Ni wŷyr rhieni pobl gydag anabledd dysgu sydd yn byw'n bell i ffwrdd o'u plant mewn oed pryd y gallan nhw eu gweld nesaf.
- Mae statws gosodiadau coleg rhai pobl ifanc yn ansicr bellach. Daeth blwyddyn academaidd 2020 i ben i bob pwrpas ym mis Mawrth yn hytrach na mis Gorffennaf. Lle mae gosodiadau coleg yn breswyl, efallai methiff rhai pobl ifanc â chael treian o'r flwyddyn o'r gosodiad yr oedden nhw'n ei ddisgwyl.
- Rydyn ni'n pryderu am yr effaith posib ar bobl gydag anabledd dysgu a'u teuluoedd/gofalwyr am y 'cymal tagfeydd' argyfwng sydd yn gadael i lywodraethau lleol gael yr amser i ddal lân ar wasanaethau ar ôl i frig yr argyfwng fynd heibio. Gallai hyn olygu bod pobl yn cael eu gadael heb wasanaethau o hyd am hyd amser anhysbys ar ôl i'r cyfnod cloi ddod i ben.
- Mae pryderon arwyddocaol ynglŷn â sut mae rhieni gydag anabledd dysgu yn ymdopi heb gymorth. Adroddodd un rhiant gydag anabledd dysgu bod nhw ddim yn derbyn cymorth neu gysylltu â'u gweithiwr cymdeithasol. Mae ofnau ynglŷn ag asesiadau annheg i rieni gydag anabledd dysgu ar ôl y cyfnod cloi, yn enwedig o wybod y bydd yn cymryd amser efallai i'r gwasanaethau gynnig cymorth eto. Mae angen polisi ar Lywodraeth Cymru sydd yn egluro sut gweithredir asesiadau magu plant ar ôl yr argyfwng. Bydd hyn yn sicrhau gwarchodaeth hawliau rhieni rhag asesiadau annheg neu ddileu hawliau rhieni. Mae llawer o gwestiynau o hyd heb eu hateb am sefyllfa rhieni gydag anabledd

dysgu. Beth sydd yn digwydd ynghylch y llys teulu? A ofynnir i rieni aros cyn darganfod a symudiff eu plentyn yn barhaol? Pa drafodaethau sydd yn digwydd yng Ngwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd? (Mencap)

- Tlodi yw'r prif gonsyrn i lawer o bobl gydag anabledd dysgu. Mae pobl wedi adrodd asesiadau wedi eu hoedi sydd yn effeithio ar eu budd-daliadau. Mae hyn wedi arwain at o leiaf un person yn gorfod defnyddio banc bwyd a chymorth brys a gynigwyd gan eu heglwys leol (ADC).
- Mae angen ar Lywodraeth Cymru weithredu arolygiadau lles trwy awdurdodau lleol i sicrhau bod pobl gydag anableddau dysgu'n cael y cymorth sydd eisiau arnyn nhw.

Cyflogaeth

- Mae effaith ar bobl gydag anabledd dysgu a gyflogwyd cyn Covid-19 yn amrywio cryn dipyn. Mae pobl yn dal i gael eu cyflogi mewn rolau gweithwyr alweddol, gydag eraill newydd ddod yn gyflogedig yn ystod y cyfnod hwn. Mae rhai o bobl mewn rolau gweithwyr alweddol wedi tynnu eu hunain yn ei ôl, wedi eu diswyddo neu wedi mynd ar gennad. Mae pobl gydag anabledd dysgu sydd yn gweithio gartref bellach os oes swydd a chyflogwr sydd yn galluogi hyn (PGCG, E2C).
- Mae cwestiwn moesegol y mae'n rhaid ei ofyn am ba ddealltwriaeth o'r ffyrdd newydd o weithio sydd gyda'r rhai sydd yn dal i weithio a'r hyn sydd eisiau arnyn nhw i wneud i gadw eu hunain yn ddiogel tra'n teithio i'r/o'r gwaith a thra bod yn y gweithle. Mewn rhai achosion, os cefnogir gan brosiect cyflogaeth, darparwyd hyfforddiant a chymorth ychwanegol ar eu cyfer i helpu gyda hyn. Beth bynnag, mae achosion lle anfonwyd gwybodaeth i weithwyr gan eu rheolwyr sydd ddim mewn fformat y gallan nhw ei ddeall (E2C).
- Mae rhesymau am beidio â bod yn y gwaith bellach neu mewn cyflogaeth yn amrywio. Mae rhai y mae eu cyflyrau iechyd neu iechyd eraill yn eu cartrefi'n golygu eu bod yn ynysu neu'n gwarchod. Mae rhai pobl wedi tynnu eu hunain yn ôl o'r gweithle oherwydd eu pryderon a'u hofnau a/neu bryderon eu rhieni/gofalwyr. Mae cyflogwyr yn mae eu busnesau ar gau ar hyn o bryd naill ai wedi diswyddo neu roi cennad i'w staff i gyd. Gall hyn fod yn anodd i'w ddeall a chaiff effaith ar incwm cartrefi gan gynnwys budd-daliadau (E2C).
- Mae angen ar bobl gydag anabledd dysgu a'u rhieni/gofalwyr gymorth er mwyn deall yr hyn mae cael cennad neu golli swydd yn golygu mewn termau go iawn. Hefyd deall eu hawliau cyflogaeth a chynnig am fudd-daliadau yng ngoleuni naill ai cyflog llai neu ddim cyflog o gwbl (E2C).
- Mae lefelau pryder yn uchel ac mae angen mawr gymorth iechyd meddwl, lles ac ymwybyddiaeth ofalgar. Darparodd mynd i'r gwaith ddiwrnod strwythuredig ac mewn sawl achos amgylchedd cymdeithasol a chefnogol a gyfrannodd at deimladau hunan-werth ac at fagu hyder (E2C).

- Rydyn ni'n pryderu yr aiff pobl gydag anabledd dysgu sydd bellach yn ddi-waith yn y tymor byr yn ddi-waith yn y tymor hir wrth i'r cyfnod cloi gilio'n araf deg. Colliff llawer o bobl sgiliau a bydd rhaid aildysgu tasgau a/neu ddysgu tasgau newydd. Bydd rhaid i rai pobl gael newid cyfeiriad llwyr wrth fod gyfleoedd cyflogaeth ac amgylcheddau gwaith yn debyg o newid. Fel cenedl, nid ydyn yn gwneud yn dda pan ddaw i'r canran o bobl gydag anabledd dysgu mewn gwaith cyflogedig. Mae rhagolygon economaidd yn awgrymu bydd diweithdra yn uchel ymhlith y boblogaeth gyffredinol ar ôl Covid-19, yn arbennig i bobl 18-30 oed. Caiff hyn effaith arwyddocaol ar gyflogaeth pobl gydag anabledd dysgu. Bydd yn anoddach, i'r rhai sydd wedi mynd yn ddi-waith ac i'r rhai sydd yn dal heb gael cyflogaeth, gael gwaith cyflogedig. Efallai bydd pobl iau gydag anabledd dysgu cymhedrol yn arbennig mewn perygl oherwydd efallai na fyddan nhw'n gymwys ar gyfer gwasanaethau dydd a bod ganddyn nhw ddyheuadau gwahanol. Mae gwir ofn y bydd carfanau newydd o bobl ifanc ddi-gswllt gydag anableddau dysgu cymhedrol yn anhysbys i'r gwasanaethau ac mewn perygl o fynd yn droseddwyr (E2C, Mencap).

Adroddiadau cadarnhaol

- Adroddir pethau positif bychain. Mae rhai pobl gydag anableddau dysgu yn ennill sgiliau newydd a hyder mewn defnyddio cyfryngau cymdeithasol, dulliau cyfathrebu ac apiau eraill. Hefyd mae cymunedau lleol wedi tyrru'n gefn i bobl fregus i'w helpu a gobeithir yr arweiniff hyn at berthnasau mwy positif a rhagweithiol yn y dyfodol. Mae'r rhai sydd yn byw gydag eraill yn closio at ei gilydd a gweithio'n fwy agos gyda'i gilydd. Mewn llety a rennir, mae preswylwyr yn cefnogi ei gilydd trwy goginio prydau i bawb ac/neu rhannu tasgau rhyngddyn nhw. Beth bynnag, mae rhai'n adrodd gwrthdaro a thensiwn oherwydd treulio gormod o amser yng nghwmni ei gilydd (PGCG).
- Mae nifer o bobl gydag anabledd dysgu sydd wedi ennill cyflogaeth yn ystod y cyfnod hwn, rhai oherwydd canlyniad uniongyrchol Covid-19. Yn ogystal, mae rhai o bobl wedi cael gennad ond bellach wedi dychwelyd i'r gwaith â chymorth.
- Mae pethau positif eraill yn cynnwys cefnogaeth barhaol a ddarperir o bell i bobl sydd yn cyfranogi o raglen cyflogaeth â chymorth: er enghraifft, datblygu sgiliau gwaith, cwblhau cyrsiau cydnabyddedig, chwilio am waith, cynnig am fudd-daliadau, gwella iechyd meddwl a lles (E2C).
- Mae swyddogion Llywodraeth Cymru trwy'r argyfwng coronafeirws wedi bod yn agored i weithio a chwrdd yn wythnosol â phartneriaid y trydydd sector fel rhan o Grŵp Cynghori'r Gweinidog Anabledd Dysgu (GCGAD) i drafod themâu/pynciau presennol. Mae Jane Hutt a Julie Morgan yn cwrdd ag aelodau o Fforwm Cynghorol Anabledd yn benwythnosol. Mae hyn yn unigryw ac nad yw'n digwydd yng ngwledydd eraill y DU ac rhydd mynediad amser real i weision sifil a Gweindigion i godi materion yn uniongyrchol oddi wrth bobl gydag anabledd dysgu a'u rhieni/gofalwyr (Mencap).